Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Rhian Thomas-Davies**

**Pont-y-clun**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

11/7/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ôl-gofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu ac maent wedi datblygu cydberthynas gadarnhaol â’r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Mae'r plant yn fywiog ac yn frwdfrydig yn eu chwarae ac maent yn cael hwyl. Maent yn mwynhau cyfleoedd diddorol a phriodol sy'n cefnogi ac yn datblygu eu dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu ffordd iach o fyw ac yn cadw'r plant yn ddiogel. Mae hi'n ofalgar, yn hoffus ac yn llawn cymhelliant a brwdfrydedd. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithiadau'n gyson ac yn bwyllog ac yn arwain trwy esiampl.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod briodol o deganau, adnoddau ac offer i hybu dysgu. Mae'r amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac yn darparu awyrgylch croesawgar.

Mae'r gwarchodwr plant yn arweinydd effeithiol. Mae ganddi ystod o bolisïau a chofnodion ar waith ac mae'n drefnus. Mae'n adolygu ei gwasanaeth yn flynyddol ac yn sicrhau ei bod yn bodloni amodau ei chofrestriad. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Mae'r rhieni yn canmol ei gwasanaeth yn fawr.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac mae ganddynt gyfleoedd da i wneud dewisiadau. Mae gan y plant amrywiaeth dda o ddewis yn eu chwarae ac maent yn hyderus wrth gael mynediad i adnoddau yn annibynnol. Er enghraifft, aeth y plant i nôl eu dewis o weithgaredd o'r blychau storio neu i nôl eu cwpanau eu hunain ar gyfer amser byrbryd. Maent yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn ymateb pan maent yn cyfathrebu ar lafar neu'n ddi-eiriau.

Mae'r plant yn fodlon ac yn mynegi mwynhad. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn gofyn yn hyderus i newid gweithgareddau ac mae'r gwarchodwr yn dilyn arweiniad y plant. Mae'r plant yn sgwrsio'n hapus gyda'r gwarchodwr plant ac yn edrych ymlaen at fynd i'r gwasanaeth. Er enghraifft, ar ôl cyrraedd y gwasanaeth, roedd un plentyn yn estyn ei freichiau allan i fynd at y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad trwy wenu neu ymuno â gweithgareddau. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, gan ffurfio cydberthnasau, ac maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol. Er enghraifft, roedd plentyn ifanc yn sefyll wrth y bwrdd yn barod ar gyfer cinio heb gael ei annog.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithio'n dda. Maent yn gwrando ar ei chyfarwyddiadau ac yn ateb cwestiynau y mae hi'n ei gofyn. Mae'r plant wedi dechrau datblygu cyfeillgarwch â'i gilydd. Er enghraifft, dechreuodd un plentyn wenu a chynhyrfu wrth i blentyn arall gyrraedd y gwasanaeth. Mae'r plant yn dysgu sut i rannu teganau ac adnoddau a chânt eu canmol yn gyson am eu hymddygiad da.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd diddorol. Maent yn canolbwyntio am gyfnod o amser sy'n briodol i'w hoedran ac mae'r gwarchodwr plant yn helpu'r plant i feithrin eu diddordebau. Er enghraifft, aeth plentyn i'r blwch peintio a newidiodd y gwarchodwr ei chynlluniau i ddilyn ei diddordebau. Mae’r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da o gyflawniad a lefel uchel o hunan-barch, ac maent am ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Er enghraifft, dangosodd plentyn glip ar ei bys i'r gwarchodwr plant ac esboniodd fod y meddyg wedi rhoi clip tebyg i wrando ar guriad ei chalon.

Mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd diddorol, sy'n briodol i'w hoedran neu ddatblygiad, sy'n hybu eu datblygiad cyfan. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ac yn hyderus i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, yn ystod amser cinio, maent yn cael eu hannog i fwydo eu hunain neu olchi eu dwylo cyn byrbryd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo iechyd a diogelwch yn effeithiol. Mae'n atgoffa'r plant yn rheolaidd am gadw'n ddiogel ac yn cynnwys trafodaethau ynghylch diogelwch trwy gydol y dydd. Er enghraifft, atgoffodd y plant i roi eli haul cyn mynd allan i chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu hylendid da, yn glanhau'r bwrdd cyn bwyta, mae'n dilyn gweithdrefnau newid cewynnau addas ac yn golchi ei dwylo'n rheolaidd. Dangosodd ei bod yn ystyried iechyd y plant trwy sicrhau eu bod yn cael eu hydradu, yn cynnig bwyd iach a sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Mae ganddi ymwybyddiaeth gyffredinol o weithdrefnau diogelu ac atebodd yn briodol yr hyn y byddai'n ei wneud pe bai pryder mewn perthynas ag amddiffyn plant. Mae hi'n sicrhau bod y plant yn ddiogel wrth eu hebrwng i'r ysgol yn y fan, gan ddefnyddio'r seddau car cywir ar gyfer eu hoedran a'u maint ac yn dilyn gweithdrefnau da ar gyfer cyrraedd a gadael y tŷ.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithiadau'n dda iawn. Mae'n ymateb yn gyson i anghenion a dymuniadau'r plant ac yn gwrando ar eu safbwyntiau yn ogystal â'u cyfathrebu di-eiriau. Er enghraifft, ymgymerodd y gwarchodwr plant â hyfforddiant Makaton i gefnogi ei gallu i gyfathrebu â'r plant. Mae'r holl ryngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn atgoffa'r plant o ymddygiad cadarnhaol yn rheolaidd ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau sy'n briodol i'w hoedran. Er enghraifft, pan oedd y plant iau eisiau'r un tegan, defnyddiodd y gwarchodwr eirfa syml i atgoffa'r plant i rannu â'i gilydd a chynigiodd degan tebyg fel dewis arall.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod eang o gyfleoedd chwarae a dysgu priodol ac felly mae'n hyrwyddo datblygiad y plant yn dda. Mae'n dilyn thema ac yn paratoi gweithgareddau'n ddyddiol ac mae hefyd yn hyblyg yn ei gwaith cynllunio er mwyn dilyn diddordebau'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Mae'n adnabod y plant yn dda ac mae ganddi daflenni asesu unigol ar gyfer pob plentyn sy'n dangos peth o'r cynnydd y mae'r plant yn ei wneud. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf nac yn adolygu'r cynnydd yn rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn gofyn cwestiynau'n rheolaidd i ymestyn chwarae'r plant ac yn trafod yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, wrth i'r plant drefnu matiau ar y llawr, dechreuodd y gwarchodwr plant rifo'r matiau ac annog y plant i ymuno a'u cyfrif eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu'r Gymraeg, gan drochi'r plant yn ogystal â chefnogi eu defnydd o'r iaith. Mae'n annog y plant yn gyson a thrwy gydol y dydd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn saff, ac mewn cyflwr da dan do ac yn yr awyr agored. Mae ganddi drefn glanhau reolaidd sy'n adlewyrchu ei harferion hylendid da. Mae arferion rheoli heintiau'r gwarchodwr plant yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Mae'n cwblhau asesiadau risg boddhaol gan gynnwys asesiad risg tân ac yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd fel bod y plant yn gwybod beth i'w wneud os bydd tân. Mae rhaglen reolaidd ar gyfer gwaith cynnal a chadw.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amgylchedd gyda mannau chwarae da dan do ac yn yr awyr agored ac mae'n sicrhau bod y plant yn gallu symud yn rhwydd rhwng y ddau. Er enghraifft, gwelsom y plant yn symud rhwng yr ardal awyr agored a'r ardal dan do fel y dymunant. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r amgylchedd yn briodol fel ei fod yn darparu ystod foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r ystodau oedran y gofalir amdanynt. Gwelsom luniau o ymweliad gan y gwarchodwr plant a'r plant i leoliad awyr agored lleol. Mae gan y gwarchodwr plant nifer o giatiau diogelwch yn eu lle i sicrhau bod y plant ond yn gallu cael mynediad at y mannau addas yn y cartref. Mae'r plant yn mynd gyda'r gwarchodwr plant drwy'r cyntedd i ddefnyddio'r toiled. Mae'r tŷ yn groesawgar ac yn gynnes ac yn hygyrch i bawb.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan lawer o’r plant fynediad at ddodrefn, teganau ac offer o ansawdd da ac sy'n briodol i'w hoedran o dan do. Er enghraifft, teganau byd bach, deunyddiau crefft, teganau rhyngweithiol, llyfrau ac ati. Mae llawer o'r adnoddau'n cael eu storio mewn blychau defnyddiau neu ar lefelau isel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos sgiliau arwain cadarnhaol yn y dogfennau a'r cofnodion y mae'n eu cadw ar gyfer ei gwasanaeth. Mae'n cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben sy'n gyfredol ac yn effeithiol ac sy'n adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth a ddarperir ac yn bodloni'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r cofnodion gofynnol yn ddiogel ac yn cynnwys gwybodaeth benodol am y plant yn ogystal â'r holl wybodaeth reoleiddiol arall. Er enghraifft, mae ganddi wybodaeth am anghenion unigol y plant yn ogystal ag ystod o ganiatadau gan rieni. Mae'n defnyddio ffurflenni i gofnodi damweiniau a digwyddiadau ac yn gwneud cofnod ar gyfer unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei rhoi i'r plant. Mae set gynhwysfawr o bolisïau ar waith sy'n dangos dealltwriaeth o arferion gorau cyfredol. Rhennir polisïau â rhieni. Fodd bynnag, ni ddilynodd ei pholisi newid cewynnau yn llwyr. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg ac mae'n gweithio tuag at sicrhau bod pob polisi a dogfen yn gwbl ddwyieithog.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu hunanwerthusiad o'r gwasanaeth. Mae hi'n gofyn am awgrymiadau oddi wrth y plant a'u rhieni / gofalwyr trwy drafod yn rheolaidd. Mae’r gwarchodwr plant yn llunio adroddiad ansawdd gofal sylfaenol sy’n tynnu sylw at yr hyn y mae wedi’i gwneud dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys pa welliannau y mae hi wedi eu gwneud ac unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol hefyd.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei hamser yn briodol ac yn blaenoriaethu gweithgareddau yn ôl anghenion. Er enghraifft, mae hyfforddiant craidd fel hylendid bwyd, diogelu plant a chymorth cyntaf yn gyfredol. Mae ganddi gofnodion presenoldeb sy'n dangos ei bod yn gweithredu o fewn ei hamodau cofrestru trwy ofalu am ddim mwy na phump o blant ar unrhyw adeg. Mae ganddi dystysgrif gyfredol gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ar ei chyfer ac ar gyfer un aelod arall o'r teulu. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd tystysgrif gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ar gael ar gyfer yr aelod ychwanegol o’i chartref, ac nid oedd ychwaith wedi cwblhau’r hysbysiad ar-lein i roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am yr aelod ychwanegol o’r cartref. Ers yr arolygiad, mae'r gwarchodwr plant wedi cadarnhau bod gan yr aelod ychwanegol o'r cartref dystysgrif gyfredol gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ac mae hi wedi cwblhau'r hysbysiad ar-lein.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni am eu plentyn trwy adborth llafar a gwasanaeth negeseuon. Er enghraifft, mae hi'n anfon lluniau yn rheolaidd i ddangos beth mae'r plant wedi bod yn ei wneud yn ystod yr wythnos. Dywedodd rhieni wrthym fod y gwarchodwr plant yn wych, yn gweithio'n arbennig o dda gyda rhieni a'i bod yn cynnig gwasanaeth cartrefol.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 – Datblygu'r broses o gynllunio ar gyfer y camau nesaf a sicrhau bod adolygiad rheolaidd o gynnydd.

A2 - Sicrhau bod y polisi newid cewynnau yn cael ei ddilyn yn llawn.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 31 | Nid oedd y gwarchodwr plant wedi hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am yr aelod ychwanegol o'r cartref. Sicrhau bod hysbysiad ar-lein yn cael ei gwblhau i roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau i aelodau’r cartref. | Cyflawnwyd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi blaenllaw o fewn y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae eu cryfderau'n gorbwyso eu meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau, a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar lesiant y plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/09/2022